Annwyl Bawb

E-FWLETIN: 17 CHWEFROR 2009

Hoffwn gychwyn yr e-fwletin hwn trwy eich atgoffa am y ddrama ***HAND IN HAND*** fydd i'w gweld yma am 7 o'r gloch, nos Wener (20 Chwefror). Mae'r ddrama yn sôn am gyfeillgarwch Carys (10¾) a Deryn (63) a'r ffordd y mae eu bywydau wedi'u plethu ym mêr waliau'r bwthyn ar y bryn. Mae'n stori sydd ar unwaith yn ddoniol ac yn ddwys, sy'n addas ar gyfer pawb dros 6 oed – pawb sy'n gwerthfawrogi ystyr cymuned a chyfeillgarwch. Tocynnau: £6 (gostyngol: £4) ac ar gael o flaen llaw o'r Morlan.

Braf yw gallu cyhoeddi hefyd y bydd **GWEFAN MORLAN** ar ei newydd wedd yn cael ei lawnsio ddydd Llun nesaf, felly ewch draw i www.morlan.org.uk ar ôl dydd Llun a rhowch wybod be' 'dach chi'n feddwl!

Nodir gweddill y digwyddiadau isod – cyfnod prysur fel y gwelwch.

CYSGOD Y CAPEL
9.00-4.00, Llun i Gwener, hyd at 28 Chwefror
Arddangosfa ddiweddaraf Gareth Owen yn cynnwys paentiadau a gosodiadau sy'n adlewyrchu dylanwad y capel a'r Pethe arno ef fel unigolyn. Bydd Gareth yn ôl yma eto am 7.00, nos Iau, 26 Chwefror er mwyn cynnal trafodaeth bellach ar ei waith. Bydd pawb wedi cael cyfle i weld yr arddangosfa erbyn hynny ac ystyried y darnau sy'n cyffwrdd ar destunau y gallwn ni i gyd uniaethu â nhw. Dewch i drafod felly – mynediad am ddim, a chewch baned a chacen!

DIWRNOD YMWYBYDDIAETH O DWYLL
10.00-3.00, dydd Mercher, 18 Chwefror (cinio bwffe am ddim – ond rhaid archebu lle)
Trefnir gan Age Concern Ceredigion. Am ragor o wybodaeth neu i archebu lle, cysylltwch â Samantha Latham (01545-570055 neu saml@ceredigion.gov.uk).

***"RHEOLI'R TECHNOLEGAU AR GYFER Y TRYDYDD CHWYLDRO AMAETHYDDOL"* – ANERCHIAD GAN CHRIS POLLOCK**
2.30, dydd Iau, 19 Chwefror
Cyfarfod misol nesaf Prifysgol y Drydedd Oes.

CYMHORTHFA MARK WILLIAMS, AS
10.00-12.00, bore Gwener, 20 Chwefror
Cysylltwch â swyddfa'r Democratiaid Rhyddfrydol am wybodaeth bellach (01970-615880).

FFAIR SWYDDI
10.00, dydd Llun, 23 Chwefror
Trefnwyd gan Ganolfan Waith Aberystwyth.

GRŴP TREFI TROSIANNOL ABERYSTWYTH
7.00, nos Lun, 23 Chwefror
Cyfarfod o'r grŵp Trefi Trosiannol lleol.

SESIYNAU GALW I MEWN AR GYFER DARPAR WIRFODDOLWYR
10.00-4.00, dydd Mawrth, 24 Chwefror
CAVO sy'n trefnu'r sesiynau hyn ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli neu fudiadau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr ac angen help recriwtio gwirfoddolwyr. Byddant yn cael eu cynnal yma ddwywaith y mis tan yr haf.

FFORWM 50+ (Cyngor Sir Ceredigion)
2.00-5.00, Dydd Mercher, 26 Chwefror

CYSGOD Y CAPEL: trafodaeth ar ddylanwad capeli a chelf – gweler uchod
7.00, nos Iau, 26 Chwefror

FFAIR WANWYN
10.30-12.30, bore Sadwrn, 7 Mawrth

Cyfle i fwynhau paned a sgwrs a phori'r amryw stondinau – gan gynnwys cynnyrch cartref (cacennau, jamiau, *quiches*, pasteiod, ...), llyfrau, teganau, raffl – a mwy! Cyfle hefyd i gynorthwyo grŵp o fechgyn lleol gyda'u hymdrechion codi arian ar gyfer eu halldaith i Gosta Rica ym mis Gorffennaf. Yn ystod eu cyfnod yno byddant yn cynorthwyo gyda phrosiectau cymunedol lleol. Dewch i gefnogi felly.

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr